



Datganiad Menter Caerdydd

Mae Bywydau Duon o Bwys

Credwn y gallwn ni fel elusen ddysgu gan eraill sut i godi ymwybyddiaeth am hiliaeth a'r angen i ddod at ein gilydd i sicrhau fod pawb yn derbyn yr un cyfleoedd.

Mae Menter Caerdydd yn llawn cefnogi ymgrych 'Mae Bywydau Duon o Bwys/Black Lives Matter' ac o'r gred nad oes lle i ragfarn yn ein cymdeithas heddiw.

Mae angen sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i greu sefydliad a gŵyl sy'n wirioneddol amrywiol, a bod ein gwaith a'n darpariaeth yn cyrraedd, ac ar gael, i bawb. Rydym yn ymrwymo i barhau i addysgu ein hunain – yn staff ac yn ymddiriedolwyr – er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth a'n pwrpas yn cynrychioli cymunedau amrywiol Caerdydd a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein darpariaeth.

Byddwn yn mynd ati i edrych o'r newydd ar beth allwn ni a'n darparwyr wneud i fod yn gynhwysol yn ein gweithredoedd, gan ymrwymo i fonitro ein allbynnau i sicrhau fod y cymunedau yma yn y Brifddinas yn cael eu cynrychioli yn deg.

Menter Caerdydd Statement

Black Lives Matter

We believe that as a charity we can learn from others to raise awareness of racism and the need to come together to ensure that everyone has the same opportunities.

Menter Caerdydd fully supports the Black Lives Matter movement and believes there is no place for prejudice in our society today.

We will we do everything we can to create a truly diverse organization and festival and ensure our work and provision is open to and accessible for all.

We are committed to continuing to educate ourselves - both staff and trustees – in order that our vision and purpose represent the diverse communities of Cardiff and that this is reflected in our provision.

We will take a fresh approach and look at what we and our providers can do to be inclusive in our actions, committing to monitoring our outputs to ensure that these communities in the Capital are fairly represented.